



Annwyl randdeiliad,

### **Llythyr ymgynghori - Y Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 arfaethedig**

Mae'r argyfwng COVID-19 wedi effeithio ar y ffordd rydym yn gweithio ym mhob sector ac mae'r prosesau a ddilynir wedi cael eu newid yn gyflym lle bo angen, er mwyn sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru.

Mae'r sectorau mabwysiadu a maethu wedi ymateb mewn modd cyflym a blaengar drwy gyflwyno mesurau i sicrhau parhad gwasanaethau hanfodol i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae hyn yn cynnwys ystyried anghenion staff, gofalwyr maeth a'r plant a'r bobl ifanc sydd yn eu gofal a'r cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i deimlo'n ddiogel a diogel yn ystod yr argyfwng hwn.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod yn gyson gyda'r sectorau mabwysiadu a maethu er mwyn canfod unrhyw broblemau posibl a allai rwystru'r sectorau rhag darparu gwasanaethau ac a allai atal plant, pobl ifanc a theuluoedd rhag manteisio ar y gwasanaethau cymorth hanfodol sydd eu hangen arnynt.

Oherwydd y pandemig COVID-19, mynegwyd pryder gan randdeiliaid ynglŷn â'r gallu i gydymffurfio â rhai o'r gofynion mewn mewn dwy set o Reoliadau, a hynny'n arwain at y posibilrwydd o darfu ar lif y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y sectorau mabwysiadu a maethu.

1. Rheoliadau Diwygio Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 – *Proses Asesu Cam 1 a 2*
2. Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 – *Y gofyniad am adroddiad meddygol llawn ar gyfer darpar ofalwyr maeth.*

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Yn dilyn trafodaeth â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant a Chomisiynydd Plant Cymru, caniatwyd hyblygrwydd dros dro yn y Rheoliadau uchod i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n gyson o fewn y sectorau mabwysiadu a maethu yn ystod y pandemig

Rwy'n ysgrifennu atoch yn awr i roi gwybod ichi am gynigion ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth ddrafft y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei datblygu i roi sail gyfreithiol i'r hyblygrwydd hwn yn ystod y cyfnod presennol, ac i ymgynghori â chi ynglŷn â hwy.

## **1. Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005**

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r broses ar gyfer asesu addasrwydd pobl i fabwysiadu plentyn ac addasrwydd plant i gael eu mabwysiadu.

### **A. Gofynion gweithdrefnol penodol yng ngham 1 a cham 2**

Daeth Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 i rym ar 1 Ebrill 2020. Yn sgil argyfwng COVID-19, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd rhanddeiliaid efallai'n gallu cydymffurfio â rhai o'r gofynion a nodir yn y broses asesu newydd dau gam y mae'r rheoliadau newydd yn ei chyflwyno ar gyfer darpar fabwysiadwyr.

Yn y broses newydd, bydd yr holl wiriadau statudol sylfaenol i bennu 'cymhwysra' rhywun i gael asesiad ar gyfer mabwysiadu yn cael eu cynnal yng ngham cyntaf y broses newydd. Ni all yr asesiad ffurfiol o 'addasrwydd', a wneir yn yr ail gam, ddechrau hyd nes bod y gwiriadau hynny wedi'u cwblhau'n foddhaol. Yn ddealladwy, nid yw gwaith arferol, megis asesiadau meddygol, wedi bod yn cael blaenoriaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn y cyfnod hwn a gallai hynny achosi oedi wrth brosesu ceisiadau mabwysiadwyr.

Rhoddwyd hyblygrwydd gweinyddol ar 1 Ebrill 2020 i alluogi cam 1 a cham 2 y broses i gydredeg. Gallai hyn olygu, er enghraifft, bod asesiadau iechyd yn cael eu cynnal yn ystod cam 2 y broses.

Serch hynny, mae'n parhau'n ofynnol i'r holl wiriadau angenrheidiol gael eu cwblhau'n llawn cyn y gellir cymeradwyo mabwysiadwr.

Ni fydd modd i ymgeiswyr ddefnyddio'r Mekanwaith Adolygu Annibynnol os bydd eu ceisiadau yn aflwyddiannus am resymau sy'n ymwneud â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu archwiliadau iechyd, fel y byddai wedi digwydd pe bai'r gwiriadau hyn wedi'u cwblhau yng ngham 1. Bydd mabwysiadwyr yn gallu defnyddio'r Mekanwaith Adolygu Annibynnol ar ôl cam 2 os bydd eu cais wedi methu am unrhyw reswm arall nad yw'n ymwneud â gwiriadau'r DBS neu archwiliadau iechyd.

Bydd y Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 arfaethedig yn rhoi effaith ddeddfwriaethol i'r llacio hwn am gyfnod penodol.

### **B. Llacio'r amserlenni ar gyfer cwblhau camau 1 a 2 a hyd y cyfnod y gall darpar fabwysiadwr oedi rhwng cam 1 a cham 2**

Bydd y Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 arafethedig hefyd yn darparu ar gyfer llacio rhai o amserlenni'r broses dau gam fel a ganlyn:

- Mae'r amserlenni ar gyfer cam cyntaf y broses (2 fis) ac ail gam y broses (4 mis) yn dal yr un fath, ond dim ond **lle bo'n rhesymol ymarferol** y bydd gofyn i asiantaethau fodloni'r amserlenni yn ystod y pandemig.
- Bydd y cyfyngiad 6 mis ar yr amser y gall darpar fabwysiadwr ei adael rhwng cam 1 a cham 2 yn cael ei ddileu.

## **Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y cynnig hwn**

### **2. Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018**

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r broses ar gyfer cymeradwyo person fel rhiant maeth i awdurdod lleol. Maent yn cynnwys gofyniad y dylai darparwr gwasanaethau maethu, fel rhan o'r broses asesu ar gyfer darpar ofalwyr maeth, gael 'manyllion iechyd (wedi eu hategu gan adroddiad meddygol)'.

Yn ystod y pandemig, rydym yn ymwybodol bod gallu'r GIG i ddarparu'r asesiadau iechyd hyn ar gyfer darpar rieni maeth wedi lleihau'n sylweddol wrth i flaenoriaethau gael eu had-drefnu i ddelio â'r argyfwng.

Fe wnaethom sylweddoli'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar drefnu lleoliadau i blant agored i niwed yn ystod yr argyfwng ac wedi hynny, a bod angen cyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd fel bod modd parhau i asesu darpar rieni maeth yn ystod y cyfnod hwn.

Ar 11 Mai 2020, cyflwynwyd hyblygrwydd gweinyddol a oedd yn caniatáu i ddwy broses ar wahân gael eu defnyddio yng Nghymru ar gyfer asesiadau meddygol i ddarpar ofalwyr maeth:

- Ar gyfer yr unigolion hynny sy'n gallu cael ymgynghoriad meddygol wyneb yn wyneb, dylid dilyn y broses wreiddiol a dylai'r darpar ofalwr maeth barhau i gael asesiad gan feddyg teulu.
- Ar gyfer darpar ofalwyr maeth nad ydynt yn gallu cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb â meddyg teulu, gellir llenwi ffurflen hunan-ddatganiad meddygol.

Os bydd asesiadau ymgeiswyr yn dod i ben heb adroddiad meddygol llawn, gall y telerau cymeradwyo ar gyfer yr ymgeiswyr hynny cael eu cyfyngu i 'byrdymor' i adlewyrchu'r cyfyngiadau a oedd yn bodoli ar adeg yr asesiad.

Bydd pob cymeradwyaeth a wneir gan wasanaethau gan ddefnyddio'r ffurflen hunan-ddatganiad iechyd yn destun proses adolygu flynyddol gynnar. Caiff hon ei chynnal cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn chwe mis ar ôl codi'r cyfyngiadau presennol. Dylai'r adolygiad blynyddol cynnar gynnwys asesiad ac adroddiad iechyd oedolion llawn, i lywio'r adolygiad ac unrhyw argymhelliad o ran cymeradwyaeth barhaus a statws cymeradwyaeth o'r fath.

Bydd y Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 arfaethedig yn golygu bod y broses hunan-ddatganiad ar gyfer asesiadau meddygol yn dod o fewn y fframwaith deddfwriaethol am gyfnod penodol.

**Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y cynnig hwn**

### **3. Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015**

Bydd y Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 arfaethedig yn estyn y cyfnod y caiff person sy'n perthyn i blentyn neu sy'n gysylltiedig ag ef fel arall gael cymeradwyaeth dros dro i weithredu fel rhiant maeth awdurdod lleol ar gyfer y plentyn hwnnw, o 16 wythnos i 24 wythnos.

**Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y cynnig hwn**

Y bwriad yw y bydd y diwygiadau a wneir i'r tair set hyn o reoliadau gan y Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 arfaethedig yn dod i rym o 1 Tachwedd 2020 ac yn cael eu dirymu ar 31 Mawrth 2021. Os bydd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y sefyllfa'n gwella, gall ddirymu'r rheoliadau hyn yn gynharach.

#### **Yr amser ymateb**

Oherwydd y brys, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb gydag unrhyw sylwadau neu gwestiynau ar y cynigion hyn i flwch post [PlantSynDerbynGofal@llyw.Cymru](mailto:PlantSynDerbynGofal@llyw.Cymru) erbyn **12:00am ar 24 Awst 2020** fel y gallwn eu hystyried cyn i'r Rheoliadau gael eu cwblhau'n derfynol.

Yn gywir



**NATALIE AVERY**

Pennaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a Chyfiawnder Teuluol